

Gweithgaredd 4 : Bywyd Iddewig yn Ewrop Cyn y Rhyfel: Hunaniaeth, Amrywiaeth a Chyffredinolrwydd



PWNC

Bywyd Iddewig Cyn y Rhyfel

GRŴP OEDRAN

Blynyddoedd 4- 6 (9-11 oed)

Cam Cynnydd 3

HYD

1 awr

MEYSYDD DYSGU A PHROFIAD

Iechyd a Lles

Dyniaethau

Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

DISGRIFIAD

Yn y gweithgaredd hwn, bydd myfyrwyr yn myfyrio ar y cysyniad o 'hunaniaeth' a sut maent yn gweld eu hunaniaeth bersonol eu hunain.

Bydd myfyrwyr yn gwrandao ar dystiolaeth fideo Inge Hack, ffoadur Kindertransport, ac yn casglu tystiolaeth ffotograffig sylfaenol yn ymwneud â'i bywyd yn yr Almaen, gan ganiatáu iddynt ddeall unigoliaeth y bywydau Iddewig yr effeithiwyd arnynt gan yr Holocost.

Bydd y myfyrwyr hefyd yn cael cyflwyniad i sut oedd hunaniaeth, diwylliant a bywyd cymunedol Iddewig yn Ewrop cyn yr Ail Ryfel Byd ac yn ystyried sut roedd profiadau Iddewig cyn y rhyfel yn wahanol neu'n debyg.

Bydd y gweithgaredd yn rhoi cyfle i fyfyrwyr fyfyr ar y pwyntiau cyffredin rhwng eu bywydau nhw a bywydau Iddewon oedd yn byw yn Ewrop cyn y rhyfel. Bydd hefyd yn galluogi myfyrwyr i ddechrau gwerthfawrogi amrywiaeth helaeth y diwylliant Iddewig Ewropeaidd cyn y rhyfel.

Gellir rhannu'r gweithgaredd yn hawdd yn ddwy sesiwn fyrrach lle bo angen - gellir cyflawni Tasgau 1 a 2 yn y sesiwn gyntaf a gellir cwblhau Tasgau 3 a 4 mewn ail sesiwn.*

NODAU DYSGU

O ganlyniad i gwblhau'r gweithgaredd hwn, bydd myfyrwyr yn:

- Myfyrio ar y cysyniad o 'hunaniaeth'.
- Cael cyflwyniad i gyfoeth ac amrywiaeth bywyd a hunaniaeth Iddewig yn Ewrop cyn yr Ail Ryfel Byd.
- Dysgu mai dim ond un elfen o hunaniaeth person Iddewig oedd 'Iddewiaeth', ochr yn ochr ag amrywiaeth o ffactorau eraill fel teulu, ysgol, hobiau, ac ati.
- Myfyrio ar unigoliaeth a dynoliaeth gyffredin bywydau Iddewig yr effeithiwyd arnynt neu a gollwyd yn yr Holocost.
- Dysgu am y cysylltiad â Chymru trwy dystiolaeth fideo a thystiolaeth ffotograffig sylfaenol ffoadur Kindertransport.

*Ceir rhestr lawn o weithgareddau ar ddiwedd y ddogfen hon.

Nodiadau Athrawon

Gweithgaredd 4 : Bywyd Iddewig yn Ewrop Cyn y Rhyfel: Hunaniaeth, Amrywiaeth a Chyffredinolrwydd

OFFER SYDD EI ANGEN

Bwrdd gwyn/marcwyr, taflunydd, cyfrifiadur i wrando ar dystiolaeth.

Ystyriwch

Dywedwch wrth y myfyrwyr eu bod am ystyried a thrafod y gair ‘hunaniaeth’. Mae Geiriadur Ar-lein Collins yn diffinio hunaniaeth fel “*Eich hunaniaeth yw pwy ydych chi. [neu] Hunaniaeth person neu le yw'r nodweddion sy'n eu gwahaniaethu oddi wrth eraill.*”¹

Ar y bwrdd, lluniwch fap meddwl a gofynnwch i'r dosbarth am eiriau sy'n dod i'r meddwl yn awtomatig wrth feddwl am hunaniaeth yn gyffredinol.

Gallech ofyn cwestiynau fel:

- Pa hunaniaeth sydd gennym ni?
- Pwy sy'n pennu ein hunaniaeth?
- Ydych chi'n meddwl y gall person fod â sawl hunaniaeth wahanol?

Efallai y byddwch am annog y myfyrwyr i ystyried pethau fel teulu, hobïau, ysgol, credoau, crefydd, iechyd, bod yn gyfoethog neu'n dlawd, cenedligrwydd, gwlad enedigol, iaith, a chartref.

Ar y daflen waith i fyfyrwyr, gofynnwch i'r myfyrwyr ysgrifennu pum gair sy'n dod i'r meddwl pan fyddant yn meddwl am eu hunaniaeth eu hunain (**Tasg 1**).

Casglu

Bydd y myfyrwyr yn gwylio tystiolaeth fideo gan Inge Hack, plentyn a oedd yn ffoadur a ddaeth i Gymru yn ystod y 1930au i ddianc rhag erledigaeth y Natsïaid.

Gofynnwch i'r myfyrwyr ddarllen bywgraffiad Inge Hack a gwylio fideo byr, lle mae Inge yn disgrifio ei phrofiad o fod yn blentyn Iddewig yn Nuremberg, yr Almaen yn y 1930au.

Yna, gan weithio mewn grwpiau/parau, gofynnwch i'r myfyrwyr ateb y cwestiynau ar y daflen waith i fyfyrwyr (**Tasg 2**). Bydd angen i'r myfyrwyr hefyd edrych ar y casgliad o ffotograffau o fywyd Inge yn y 1930au.

¹ Collins Online Dictionary, *identity*, n. (2022) <<https://www.collinsdictionary.com/us/dictionary/english/identity>> [cyrchwyd 15 Chwefror 2022].



Nodiadau Athrawon

Gweithgaredd 4 : Bywyd Iddewig yn Ewrop Cyn y Rhyfel: Hunaniaeth, Amrywiaeth a Chyffredinolrwydd

Casglu (parhad)

Mae'r dystiolaeth a'r ffotograffau yn disgrifio ac yn dangos Inge a phlant Iddewig eraill mewn amrywiaeth o olygfeydd, a bydd y rhan fwyaf ohonynt yn gyfarwydd i fyfyrwyr o'u bywydau eu hunain (er enghraifft, gan gyfeirio at olygfeydd cyfarwydd o fywyd teuluol a bywyd ysgol), gan amlygu bod gan y plant Iddewig yn gyffredinol ddiddordebau a phrofiadau a oedd yn debyg iawn i rai'r myfyrwyr.

Ac, fel y mae'r delweddau a'r dystiolaeth a ddefnyddiwyd yn y wers hon yn awgrymu, roedd gan Inge - yn union fel pob Iddew a phawb arall - agweddau lluosog i'w hunaniaeth, a ffurfiwyd gan ei theulu, ei ffrindiau, ei haddysg, ei diddordebau, a llawer o brofiadau eraill.

Mae'r dystiolaeth fideo yn tynnu sylw at ddigwyddiad lle gwaharddwyd Inge rhag chwarae gyda ffrind. Roedd tad y ffrind yn swyddog SS. O ddechrau'r gyfundrefn Natsïaidd, ymddiriedodd Hitler yn yr SS i gael gwared ar elynion gwleidyddol a hiliol honedig y gyfundrefn (gan gynnwys, yn y pen draw, difodiant Iddewon Ewropeaidd) ac mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod Inge wedi'i hatal rhag chwarae gyda'i ffrind ar sail ei hunaniaeth Iddewig.

Gofynnwch i'r myfyrwyr ddarllen y daflen am Fywyd Iddewig yn Ewrop cyn yr Holocaust .

Yna, gan weithio mewn grwpiau/parau, gofynnwch i'r myfyrwyr ysgrifennu pedwar peth maen nhw wedi'u dysgu am fywyd bob dydd pobl Iddewig yn Ewrop cyn y 1930au. Anogwch y myfyrwyr i feddwl am y gwahaniaethau ym mywydau a phrofiadau Iddewon yn ystod y cyfnod hwn (er enghraifft, mewn perthynas â'u cenedligrwydd, ieithoedd, swyddi, addysg a thraddodiadau) (**Tasg 3**).

Anogwch y myfyrwyr i ganfod nad oedd llawer o Iddewon Ewropeaidd o reidrwydd yn diffinio eu hunaniaeth Iddewig mewn termau crefyddol yn unig (neu, mewn rhai achosion, o gwbl).

Llunio

Gofynnwch i'r myfyrwyr ysgrifennu llythyr byr fel Inge Hack, i gyflwyno ei hun i Edith Gordon (ei noddwr Kindertransport yng Nghymru) . Anogwch y myfyrwyr i gyfeirio'n ôl at eu trafodaeth am hunaniaeth ar ddechrau'r wers (**Tasg 1**), yn ogystal â bywgraffiad Inge, tystiolaeth fideo a ffotograffau (**Tasg 2**).

Cyfathrebu

Gofynnwch i'r myfyrwyr rannu eu llythyrau gyda ffrind neu aelod o'u teulu (**Tasg 4**). Gofynnwch sut roedd eu llythyrau'n ychwanegu at ddealltwriaeth eu ffrind neu deulu o fywyd Iddewig yn Ewrop cyn yr Ail Ryfel Byd. Gofynnwch iddyn nhw ysgrifennu rhai nodiadau neu eiriau allweddol sy'n adlewyrchu eu hymateb.



Nodiadau Athrawon

Gweithgaredd 4 : Bywyd Iddewig yn Ewrop Cyn y Rhyfel: Hunaniaeth, Amrywiaeth a Chyffredinolrwydd

Atodiadau

1. Taflen 1: Inge Hack - Bywgraffiad (gan gynnwys casgliad o ffotograffau o fywyd Inge yn y 1930au).
2. Taflen 2: Bywyd Iddewig yn Ewrop Cyn yr Holocost.
3. Taflen 3: Inge Hack - Trawsgrifiad.
4. Taflen 4: Taflen Waith Myfyriwr.

Rhestr o Weithgareddau

- Gweithgaredd 1: Kindertransport a'r Plant a Ffodd i Gymru: Rhan 1 - Cefndir.
- Gweithgaredd 2: Kindertransport a'r Plant a Ffodd i Gymru: Rhan 2 - Y Daith.
- Gweithgaredd 3: Kindertransport a'r Plant a Ffodd i Gymru: Rhan 3 - Cyrraedd Cymru.
- Gweithgaredd 4: Bywyd Iddewig yn Ewrop Cyn y Rhyfel: Hunaniaeth, Amrywiaeth a Chyffredinolrwydd.
- Gweithgaredd 5: Yr Effaith Gyfreithiol: Sut Gall Cyfreithiau Erlid neu Ddiogelu.
- Gweithgaredd 6: Rhagfarn a Phropaganda.
- Gweithgaredd 7: Prydain a Cholled Etifeddol: Rhan 1.
- Gweithgaredd 8: Prydain a Cholled Etifeddol: Rhan 2.
- Gweithgaredd 9: Ailfeddwl Cyfrifoldeb.
- Gweithgaredd 10: Gwrthsafiad a Chofio.

Delwedd Clawr

Ffotograff o Inge yn blentyn yn dal tedi, 1931. Delwedd o gyfweiliad Inge Hack o archif USC Shoah Foundation – The Institute for Visual History and Education, 1997. Am ragor o wybodaeth: <http://sfi.usc.edu/>.

